# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 14 Mawrth 2013 i'w hateb ar 19 Mawrth 2013

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i undebau credyd. OAQ(4)0978(FM)

**2. Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynaliadwyedd undebau credyd yng Nghymru yn y dyfodol. OAQ(4)0970(FM)

**3. Mick Antoniw (Pontypridd)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc yn etholaeth Pontypridd. OAQ(4)0981(FM)

**4. Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau'r GIG yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0969(FM)

**5. Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau gofal dwys i fabanod newydd-anedig yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0973(FM)**W**

**6. Alun Ffred Jones (Arfon)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am benderfyniad Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch gofal dwys i fabanod yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0983(FM)**W**

**7. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau biwrocratiaeth i fusnesau yng Nghymru. OAQ(4)0979(FM)

**8. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi economi de Cymru. OAQ(4)0984(FM)

**9. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch y pŵer dros bris alcohol yng Nghymru. OAQ(4)0980(FM)**W**

**10. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynllun adfywio Môn a Menai. OAQ(4)0974(FM)**W**

**11. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ba gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn dilyn adroddiad interim terfynol y 'Gwerthusiad o'r Prosiect Mynediad at Wasanaethau Ariannol trwy Undebau Credyd' a gyhoeddwyd ar 12 Mawrth. OAQ(4)0985(FM)

**12. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn ystod 2013 i adfywio canol ein trefi a'n dinasoedd. OAQ(4)0971(FM)

**13. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y contract cenedlaethol ar gyfer staff sy'n gweithio mewn addysg bellach. OAQ(4)0975(FM)

**14. Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau tlodi yn Nhor-faen. OAQ(4)0982(FM)

**15. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ffigurau Cyfrifiad 2011 ynghylch yr iaith Gymraeg. OAQ(4)0972(FM)